**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**166 - Rheoliadau Gwahardd Cyfyngiadau Meintiol (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Gorffennaf 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Oes |
| Y weithdrefn: | Negyddol Arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 21 Gorffennaf 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 28 Gorffennaf 2020 - argymell uwchraddio i'r weithdrefn gadarnhaol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 7 Medi 2020 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 38 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi ("y Ddeddf Ymadael").

Mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio pwerau yn y Ddeddf Ymadael i gywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE mewn perthynas â gwahardd cyfyngiadau meintiol ar fewnforion ac allforion, ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu.

Diben y Rheoliadau hyn yw rhoi diwedd ar gymhwyso hawliau sy'n llifo o'r darpariaethau yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (Erthyglau 34 i 36) sy'n gwahardd cyfyngiadau meintiol a mesurau cyfatebol ar fewnforion neu allforion yn yr UE, ar ôl diwedd y cyfnod

gweithredu. Bydd yr hawliau cytuniad uniongyrchol effeithiol hyn yn dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ond mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y dylai'r hawliau hyn ddod i ben.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â darpariaethau tebyg yn y Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Cytundeb rhwng Cymuned Economaidd Ewrop a Chydffederasiwn y Swistir, a lofnodwyd ym Mrwsel, a'r Cytundeb rhwng Cymuned Economaidd Ewrop a Thwrci, a lofnodwyd yn Ankara.

Mae'r ddarpariaeth arbedion yn gwneud eithriad sy'n caniatáu ar gyfer parhad hawliau o dan yr athrawiaeth dihysbyddu hawliau eiddo deallusol (Rheoliadau Eiddo Deallusol (Dihysbyddu Hawliau) (Ymadael â'r UE) 2019).

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 23 Gorffennaf 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn darparu bod "*cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU*". Er bod y Rheoliad hwn yn gymwys yn diriogaethol i'r DU, nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn diriogaethol i Ogledd Iwerddon, gan y bydd Protocol Gogledd Iwerddon yn gymwys o ran symud nwyddau rhwng Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd a Phrydain Fawr fel ei gilydd. Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn cymhwyso Erthyglau 34 i 36 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, a'r darpariaethau tebyg a wneir yng Nghytundebau'r AEE a'r cytundebau gyda'r Swistir a Thwrci, yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.